**Cyngor Gwynedd**
**Polisi Caniatáu Is-ddeddfau Draenio Tir**

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, rhoddwyd pwerau a chyfrifoldebau ychwanegol i gynghorau yng Nghymru er mwyn rheoli llifogydd o ffynonellau dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin. Fel rhan o'r pwerau newydd, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o roi caniatâd cwrs dŵr cyffredin o Gyfoeth Naturiol Cymru i'r Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol yn Ebrill 2012 a hynny o dan Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir 1991.

Ers ymgymryd â'r ddyletswydd o gydsynio ac ymgymryd â'r swyddogaeth ehangach o reoli perygl llifogydd, mae ymarferwyr wedi nodi bod pwerau o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn gyfyngedig. Maent yn nodi y gallai gweithgareddau penodol nad ydynt wedi'u cydsynio ar hyn o bryd gynyddu'r perygl o lifogydd yn enwedig mewn ardaloedd mwy adeiledig. Penderfynwyd felly yn 2013 sefydlu grŵp gorchwyl i oruchwylio adolygiad o'r is-ddeddfau cyfredol gyda'r nod o greu cyfres newydd i helpu Awdurdodau Arweiniol Llifogydd Lleol yng Nghymru i reoli gweithgareddau'n fwy effeithiol ac yn fwy cyson ar hyd cwrs dŵr cyffredin.

Yn 2019, mabwysiadodd Cyngor Gwynedd Is-ddeddfau Draenio Tir a ddrafftiwyd ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r is-ddeddfau newydd yn cynnwys 16 is-ddeddf unigol sydd wedi eu llunio i gefnogi a gweithio gyda'r fframwaith rheoli presennol sydd wedi eu darparu o dan y Ddeddf Draenio Tir 1991 a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.

Mae'r gyfres gyfan yn cynnwys 7 adran ond mae'r is-ddeddfau eu hunain wedi eu grwpio o dan 4 pennawd penodol:

- Rheoli cyflwyno dŵr a chynyddu llif neu gyfaint, neu ddŵr
- Rheoli unrhyw botensial i achosi rhwystr neu atal y llif
- Sicrhau bod cyflwr glannau'r cwrs dŵr yn cael eu cynnal
- I warchod darpariaethau damweiniol

Paratowyd y ddogfen bolisi hon fel canllaw i unrhyw berson neu barti sy'n bwriadu ymgymryd â gwaith y gellid ei ddehongli fel gweithgareddau a ddisgrifir yn **adrannau 5, 6, 9 a 10** o'r Is-ddeddfau Draenio Tir; disgrifio gweithgareddau penodol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu rheoli drwy weithdrefn gydsynio, a'r meini prawf penderfynu ar gyfer pob cais ar sail pob achos unigol.

Mae adrannau 8, 13, 14 a 16 yn disgrifio gweithgareddau ar neu'n agos i gwrs dŵr cyffredin sydd wedi eu gwahardd o dan yr is-ddeddfau; mae adrannau 7, 11, 12 a 15 yn disgrifio'r oblygiadau i dirfeddianwyr glannau'r afon yn ôl yr is-ddeddfau. Ni ystyrir bod angen eglurhad pellach ynghylch diben neu ystyr y cymalau hyn yn y ddogfen hon.

## Gweithredu'r Is-ddeddfau

O dan y pwerau a osodir o dan yr Is-ddeddfau Draenio Tir gall Cyngor Gwynedd ganiatáu y gweithgareddau canlynol o fewn, dros, o dan neu wrth ymyl gwrs dŵr cyffredin:

***5. Rheoli dŵr newydd, newid llif a chyfaint y dŵr***

*(1) Heb effeithio ar adrannau 23 a 25 Deddf Draenio Tir 1991, chaiff neb wneud y canlynol heb ganiatâd yr awdurdod:*

*(a) cau dyfrffos*;*
*(b) gwyro;*
*(c) rhwystro; neu*
*(d) newid;*

*Lefel neu gyfeiriad llif y dŵr i ddyfrffos, trwyddi neu allan ohoni.*

*(2) Yn yr is-ddeddf hon, ystyr 'newid' yw creu neu estyn dyfrffos a dod â dŵr sy'n cynyddu llif neu gyfaint y dŵr yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn unrhyw ddyfrffos yn ardal yr awdurdod lleol.*

*(3) Yn yr is-ddeddf hon, ystyr 'rhwystro' yw cau neu lenwi sianel dyfrffos ac achosi tagfa dŵr o dan fwa, pont neu sarn mewn unrhyw ddyfrffos neu ar dir sy'n agored i lifogydd.*

**Ar gyfer beth ydw i angen caniatâd?**

- Creu draen dŵr wyneb o'r newydd
- Rhyddhau dŵr wyneb / dŵr daear i mewn i gwrs dŵr sy'n bodoli'n barod
- Cyflwyno rhwystr i bwa pont neu sarn sy'n caniatáu llwybr llif dŵr yn arferol

*Bydd Cyngor Gwynedd yn gofyn am gais swyddogol ar gyfer Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin ar gyfer atal neu wyro cwrs dŵr presennol a hynny o dan Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir.

**Meini Prawf Penderfynu:**
Caiff gwaith a ddisgrifir o dan gymal 5 ond ei ganiatáu pan fydd yr ymgeisydd yn gallu arddangos nad oes risgiau llifogydd neu amgylcheddol sylweddol ynghlwm a'r gwaith. Wrth benderfynu cais, bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried y lleoliad, amseriad a hyd y gwaith yn ogystal â'r fethodoleg arfaethedig. Bydd gwaith a all gyflwyno risg llifogydd i eiddo neu o sydd o fewn ardaloedd ecolegol sensitif ond yn cael eu derbyn gan Gyngor Gwynedd pan fyddent yn fodlon nad oes dulliau rhesymol amgen ar gael, a bod mesurau digonol ac ymarferol wedi eu cyflwyno. Bydd unrhyw waith tebyg fydd yn derbyn caniatâd yn destun i amodau llym er mwyn bodloni'r awdurdod fod y risgiau yn cael eu rheoli'n ddigonol.

***6. Ymyrryd â llifddorau ac amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r llanw***
*(1) Chaiff neb ddefnyddio llifddor, fflodiart, amddiffynfa rhag llifogydd/llanw neu unrhyw ffordd arall o reoli, trefnu a monitro llif y dŵr i ddyfrffos gyffredinol, trwyddi neu allan ohoni heb ganiatâd yr awdurdod.*

*(2) Yn yr is-ddeddf hon, ystyr 'ymyrryd' yw tynnu, difrodi neu symud deunyddiau sy'n rhan o amddiffynfa rhag llifogydd neu'r llanw.*

**Meini Prawf Penderfynu:**
Bydd gwaith a ddisgrifir o dan gymal 6 sydd wedi ei gynllunio o flaen llaw ond yn cael ei ganiatáu mewn amodau eithriadol, pan nad oes risgiau llifogydd neu amgylcheddol sylweddol ynghlwm a'r gwaith, pan all yr ymgeisydd ddangos bod y gwaith arfaethedig yn gwbl angenrheidiol, pan nad oes unrhyw opsiynau rhesymol eraill ar gael, a gyda sicrhad bod y llifddorau, amddiffynfa llifogydd neu'r amddiffynfa forol yn gallu cael eu hadfer yn ôl i'w cyflwr gwreiddiol ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

***9. Cynnal a chadw glannau dyfrffosydd a thir sy'n agored i lifogydd***

*(1) Chaiff neb heb ganiatâd yr awdurdod blannu coeden, gadael neu gadw unrhyw beth neu sylwedd, cynnau tân nac ymyrryd â gwaelod a glannau dyfrffos o fewn pellter yr is-ddeddfau hyn mewn modd sy'n debygol o wneud y canlynol i:*

*(a) achosi llifogydd,*
*(b) rhwystro dŵr rhag llifo,*
*(c) difrodi ceuffos, glan dyfrffos, gwaith rheoli dyfrffos, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr,*
*(ch) peryglu sefydlogrwydd y rheiny,*
*(d) effeithio ar eu ffordd o weithio.*

*Mae'r uchod yn berthnasol i gwlfertau, glannau cwrs dŵr, gwaith rheoli cwrs dŵr, amddiffynfa llifogydd, gwaith rheoli llanw neu amddiffynfa môr.*

*(2) Yn yr is-ddeddf hon:*

*Ystyr "ymyrryd" yw codi, tynnu, difrodi neu symud deunyddiau sy'n rhan o amddiffynfa rhag llifogydd/llanw neu waelod/glan dyfrffos yn ogystal â chloddio tir neu wneud unrhyw beth arno a/neu ynddo allai ddifrodi gwaelod/glannau dyfrffos.*

*Ystyr "cynnau tân" yw gwneud unrhyw beth a allai achosi tân ar dir wrth ymyl dyfrffos, lle y gallai losgi mawn yng nglannau'r dyfrffos neu losgi unrhyw blanhigion sy'n tyfu ar dir sy'n rhan o'r glannau hynny.*

*Ystyr "cadw unrhyw beth neu sylwedd" yw gadael, pentyrru neu gadw pethau hylifol a solid gan gynnwys planhigion a thoriadau planhigion.*

*Mae "pethau" yn cynnwys llongau a chychod hefyd.*

**Ar gyfer beth ydw i angen caniatâd?**

- Unrhyw waith i symud deunydd o wely cwrs dŵr neu i newid proffil y glannau
- Ar gyfer storio deunydd adeiladu dros dro a hynny dros gwlfert neu o fewn 8m i lannau cwrs dŵr
- Ar gyfer storio byrnau gwellt neu rwbel a gloddiwyd dros dro neu'n barhaol a hynny dros gwlfert neu o fewn 8m i lannau cwrs dŵr ar dir amaethyddol
- Ar gyfer storio deunydd a garthwyd o afon a/neu ddeunydd sydd wedi ei dynnu o wely neu glannau cwrs dŵr a hynny dros dro neu'n barhaol o fewn 8m i lannau'r cwrs dŵr.

**Meini Prawf Penderfynu:**

Bydd gwaith a ddisgrifir o dan gymal 9 ond yn cael ei ganiatáu pan fydd yr ymgeisydd yn gallu arddangos nad oes risgiau llifogydd neu amgylcheddol sylweddol ynghlwm a'r gwaith. Dylai gwaith peirianyddol i wely neu i lannau cwrs dŵr gael ei amseru a'i ymgymryd yn briodol er mwyn osgoi'r risg o achosi niwed ecolegol, ac ni ddylai wneud niwed i gyflwr y gwely/glannau a all gynyddu'r risg o fethiant yn y dyfodol. Bydd storio deunyddiau wrth ochr cwrs dŵr ond yn cael ei ganiatáu mewn achosion o risg isel, ble nad oes hanes o lifogydd afonol blaenorol a gyda chynllun wrth gefn yn ystod cyfnodau o law trwm. Dylid rheoli storio er mwyn lleihau'r risg o ddifrod i lannau cyrsiau dŵr cyfagos neu gwlfertau gwaelodol. Bydd angen ardal byffer rhesymol rhwng unrhyw ardal storio a thop y glannau er mwyn cynnal mynediad a lleihau'r risg o golli deunydd i mewn i'r cwrs dŵr.

***10. Gosod adeiladau, pibellau ac ati ar dir sy'n agored i lifogydd***

*(1) Chaiff neb wneud y canlynol heb ganiatâd yr awdurdod:*

*(a) codi neu adeiladu unrhyw beth:*

*(i) mewn dyfrffos, arni, o dani neu drosti nac yng nglan/ar lan dyfrffos;*

*(ii) o fewn pellter yr is-ddeddfau;*

*(iii) ar waith rheoli dyfrffos, amddiffynfa rhag llifogydd, gwaith rheoli'r llanw neu amddiffynfa rhag y môr;*

*(iv) dros unrhyw ran o geuffos neu o fewn pellter yr is-ddeddfau ar bob ochr iddi;*

*(b) cloddi neu osod twnnel, draen, ceuffos neu unrhyw ffordd arall ar gyfer dŵr mewn dyfrffos, arni, o dani neu drosti nac yng nglan/ar lan dyfrffos; mewn modd neu am gyfnod fydd yn difrodi gwaelod/glannau dyfrffos neu rwystro dŵr rhag llifo iddi, trwyddi neu allan ohoni.***

*(2) Fydd yr is-ddeddf hon ddim yn berthnasol i unrhyw waith dros dro yn ystod argyfwng.*

*(3) Yn yr is-ddeddf hon:*
*Ystyr "argyfwng" yw sefyllfa sy'n peryglu bywydau neu eiddo.*

**Ar gyfer beth ydw i angen caniatâd?**

- Croesfannau parhaol neu dros dro dros gwrs dŵr presennol***
- Adeiladau neu strwythur parhaol (gan gynnwys waliau) o fewn 8m i gwrs dŵr presennol, cwlfert neu amddiffynfa rhag llifogydd***

** Bydd Cyngor Gwynedd yn gofyn am gais swyddogol ar gyfer Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin ar gyfer atal neu wyro cwrs dŵr presennol a hynny o dan Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir.

*** Ni fydd unrhyw strwythur neu adeilad parhaol ble mae'r datblygwr eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio ar ei gyfer yn destun caniatâd o dan yr is-ddeddfau.

**Meini Prawf Penderfynu:**

Bydd gwaith a ddisgrifir o dan gymal 10 ond yn cael ei ganiatáu pan fydd yr ymgeisydd yn gallu arddangos nad oes risgiau llifogydd neu amgylcheddol sylweddol ynghlwm a'r gwaith. Bydd caniatâd i godi adeilad neu strwythur wrth ymyl cwrs dŵr ond yn cael ei ganiatáu mewn achosion o risg isel ble nad oes hanes o lifogydd afonol yn y gorffennol, gyda chynllun mewn lle wrth gefn yn ystod cyfnod o law trwm. Bydd hefyd angen ardal byffer rhesymol ar y glannau er mwyn cynnal mynediad i'r cwrs dŵr. Bydd croesfan newydd yn cael ei ganiatáu dros gwrs dŵr agored mewn achosion risg isel yn unig, ble nad yw'r ardal croestoriad yn cael ei gyfaddawdu. Nid yw'n debygol y caiff caniatâd ei roi i godi adeilad neu strwythur parhaol dros gwlfert sy'n bodoli'n barod.

## Gorfodaeth a chosb

Gall peidio â chydymffurfio â'r is-ddeddfau arwain at ddau ganlyniad: yn gyntaf bydd y troseddwr yn cael dirwy a gall yr awdurdod draenio tir gywiro'r sefyllfa ac adennill y costau cysylltiedig.
Yn ôl adran 66(6) y ddeddf, bydd rhaid i bawb sydd wedi'i gael yn euog o weithredu'n groes i'r is-ddeddfau hyn neu fethu â chydymffurfio â nhw, dalu am bob trosedd ddirwy heb fod dros yr hyn a bennir ar gyfer lefel 5 (£5,000) ar y raddfa sydd wedi'i chrybwyll yn adran 37 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982, yn ogystal â dirwy ychwanegol heb fod dros £40 am bob diwrnod y parhaodd y troseddu neu'r methu ar ôl ei gael yn euog.

Yn ôl adran 66(7) y ddeddf, os yw rhywun wedi gweithredu'n groes i'r is-ddeddfau hyn neu fethu â chydymffurfio â nhw, caiff y cyngor (heb effeithio ar unrhyw weithdrefn sy'n mynd rhagddi yn ôl adran 66(6) y ddeddf) wneud unrhyw beth y bydd ei angen i gywiro effaith y troseddu neu'r methu yn ogystal â mynnu i'r sawl o dan sylw dalu costau rhesymol sydd wedi deillio o hynny.

Bydd arfer y pwerau gorfodaeth ond yn digwydd pan fo'r angen ac fel y dewis olaf pan fydd pob cyfle arall i ddatrys y mater wedi cael eu harchwilio. Wrth ddod i benderfyniad a ddylid defnyddio'r pwerau neu beidio, bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried:

- Canlyniadau peidio â chydymffurfio;
- Perfformiad y troseddwr o ran cydymffurfio yn y gorffennol;
- Effeithiolrwydd tebygol a risg yr opsiynau gorfodi; a
- Budd y cyhoedd.

Bydd penderfyniad i gymryd camau gorfodi ond yn cael eu hystyried yn llawn pan fydd pob dull cyfathrebu arall wedi ei disbyddu a/neu mae tystiolaeth gadarn i gefnogi bod eiddo preswyl neu seilwaith hanfodol wedi eu heffeithio neu mewn perygl uniongyrchol o lifogydd.